# SL(5)440 – Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) (Diwygio) 2019

## Cefndir a Diben

Mae’r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Rhywogaethau Goresgynnol Estron (Gorfodi a Thrwyddedu) (Diwygio) 2019 (Gorchymyn 2019) er mwyn newid y dyddiad y daw Gorchymyn 2019 i rym, o 1 Hydref 2019 i 1 Rhagfyr 2019.

Mae’r Gorchymyn hwn hefyd yn gwneud diwygiad canlyniadol i erthygl 43 o Orchymyn 2019 (Adolygu: Lloegr) er mwyn newid y dyddiad erbyn pryd y mae’n rhaid cyflwyno’r adroddiad cyntaf o dan erthygl 43, o 1 Hydref 2024 i 1 Rhagfyr 2024. Nid yw erthygl 43 yn berthnasol i Gymru.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw'r offeryn wedi'i wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg**

- Gwnaed y Gorchymyn hwn fel offeryn cyfansawdd, sy’n golygu bod y Gorchymyn: (a) wedi cael ei wneud gan Weinidogion Cymru a’r Ysgrifennydd Gwladol, a (b) wedi cael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU. O ganlyniad, mae’r Gorchymyn wedi’i wneud yn Saesneg yn unig.
- Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod angen gwneud y Gorchymyn ar sail cyfansawdd gan ei fod yn diwygio Gorchymyn 2019, a wnaed ar sail gyfansawdd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn ailadrodd bod Gorchymyn 2019 wedi’i wneud ar sail gyfansawdd er mwyn helpu i sicrhau dull gorfodi cyson, ac er mwyn sicrhau hygyrchedd a dealltwriaeth ar gyfer aelodau o'r cyhoedd ac eraill. Mae'r cynghorwyr cyfreithiol yn derbyn bod rhesymau da dros wneud y Gorchymyn hwn ar sail gyfansawdd, ond nodwn yr effaith a gaiff hynny (h.y. nid oes fersiwn Gymraeg).

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debygol o fod o ddiddordeb i’r Cynulliad.**

- Gwneir y Gorchymyn hwn o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (Deddf 1972). Mae Deddf 1972 yn rhoi disgresiwn ynghylch pa un ai'r weithdrefn negyddol ynteu'r weithdrefn gadarnhaol a ddylai fod yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn. Dewiswyd y weithdrefn negyddol ar y sail bod angen y darpariaethau gofynnol er mwyn rhoi effaith i ddarpariaethau

Rheoliad yr UE.  Yn ogystal â hynny, mae'n ofynnol i'r offeryn ddilyn y weithdrefn negyddol yn unol â'r pŵer galluogi o dan adran 22(5) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

- Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn derbyn bod dewis y weithdrefn negyddol yn briodol o ystyried y rhesymau hyn.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r Gorchymyn hwn a Gorchymyn 2019 yn gweithredu rhwymedigaethau'r UE mewn perthynas ag atal a rheoli'r broses o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau goresgynnol estron, ac felly bydd Gorchymyn 2019 yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir yn dilyn y diwrnod ymadael.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Llywodraeth.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**17 Medi 2019**